CYNGOR CYMDEITHAS LLANGOEDMOR COMMUNITY COUNCIL

*Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn Neuadd y Cwrwgl, Llechryd am 7pm ar 6 Chwefror 2023 yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.*

---

Presennol:
Cadeirydd Cyng Nicky Redmond. Cyngr: Jan Culley , Hywel Davies, Iwan Davies, Ruth Davies, Amanda Edwards, Garethe El Tawab, Colin Lewis, Ken Symmons, Richard Rose, Clive Wychwood

CS A Edwards
~~CC C James~~

Clerc

Aelodau'r Cyhoedd: 0

Mynegodd y Cyngor eu cydymdeimlad â'r Cyng K Symmons a'r teulu ar farwolaeth Margaret, gwraig y Cyng Symmons.

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Dim.

**2. Datgan Diddordeb ar faterion sy'n codi o'r Agenda**
Dim.

**3. Cadarnhau Trefn yr Agenda** a nodi unrhyw eitemau y gellid eu datrys ar gyfer sesiwn gyfrinachol.
Derbyniwyd yr agenda fel y cafodd ei chyflwyno.

**4. Cadarnhau Cofnodion 09-01-23**

Amheuwyd yr adroddiad yn y cofnodion fod dŵr yn rhedeg ar draws y ffordd yn ymyl Cwr-coed Uchaf gan nad oedd mynediad uniongyrchol o'r eiddo i'r lôn. Cytunwyd i ychwanegu eglurhad am hyn fel eitem ar agenda mis Mawrth.

| | | |
|---|---|---|
| Bod y cofnodion yn cael eu cywiro, yn eitem 5.1.1 ychwanegu 'ystad' ar ôl Maesyderi ac yn eitem 7.9.5 tudalen 511 bod y gair 'as' yn y cofnod Saesneg yn ei gywiro I 'ask'. Bod y cofnod wedyn yn cael eu derbyn fel cofnod cywir. | Cytunwyd | |
| Cyng A Edwards | Cyng C Lewis | Cytunwyd |

**5. Ceisiadau Cynllunio**
Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.

Mae dogfennau cynllunio i'w gweld yn: https://www.ceredigion.gov.uk/resident/planning-building-control-and-sustainable-drainage-body-sab/planning-building-control/

*Gorfodi cynllunio*
Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.

*Diweddariad LDP2*
Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.

**6. Adroddiad y Cynghorydd Sir**
Nodwyd yr adroddiad ysgrifenedig gyda diolch. Roedd y Cyng A Edwards wedi darparu gwybodaeth am ddarparu biniau graean, a nodwyd hynny.

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Bod y Cyngr R Davies ac C Wychwood yn rhoi gwybod i'r Clerc am ddewis o leoliad yn ymyl Cwr-coed. Y Clerc wedyn i ofyn i CSC am flwch. | Cytunwyd |

**7. Cyllid a Gweinyddu**
*7.1 Taliadau Misol*

| | | |
|---|---|---|
| S Davies | Cyflog gros, SC 25 | 471.22 |
| Grave Concerns | Arolwg a Thrwsio | 288.00 |
| Cymorth Cynllunio Cymru | Hyfforddiant Cyngr | 35.00 |
| Danfo | Glanhau 6883 | 340.50 |
| Danfo | Glanhau 6835 | 298.50 |
| Neuadd y Cwrwgl | Anf 891 a 907 | 40.00 |

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Derbyn y taliadau fel y cawsant eu cyflwyno | Cytunwyd |

*7.1.2 Cymhwysiad y Banc*
Nodwyd.

*7.2 Cyfarfodydd y dyfodol*
*7.2.1 Cyfieithu yng nghyfarfodydd y Cyngor*
Roedd y Cyng I Davies yn garedig wedi gwneud ychydig waith ymchwil. Awgrymodd, er mwyn i gyfieithu ar y pryd weithio, y dylai fod o'r Gymraeg i'r Saesneg, y dylai'r cyfieithydd fod ar y safle ond mewn ystafell ar wahân, a phawb a oedd am gael cyfieithiad Saesneg yn cael set pen. Nid oedd cyfieithu ar y pryd yn gweithio'n dda gyda chyfarfodydd hybrid.

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Cyng I Davies i holi am gost prynu'r ffonau pen Y Clerc i siarad â'r cyfieithydd a ddefnyddir gan CT Aberteifi i weld a allai hi ddarparu ffonau pen, a faint fyddai'r gost pe byddem yn gofyn iddi wneud y cyfieithu. | Cytunwyd |

Cytunwyd yn gyffredinol fod darparu cyfieithu ar y pryd yn rhywbeth i'w ddymuno ond bod yn rhaid ei asesu yn erbyn costau ac ymarferoldeb.

*7.2.2 Defnyddio'r Hen Ysgol, Llangoedmor*
Roedd y Clerc wedi cysylltu â'r Clerc trefnu ynglŷn â defnyddio'r Hen Ysgol gyda chwestiwn am ddarparu Wifi ar y safle..

*7.3 Cofrestru tir*
Yn parhau.

*7.4 Cylchlythyr*
Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.

*7.**5** Diweddaraf am rodd o dir a chytuno ar unrhyw ymateb*
Yn disgwyl diweddariad gan y Cyfreithwyr.

*7.6 Arwydd Diffib ym mharc ceir Neuadd y Cwrwgl*
Wedi gofyn am ddyfynbris..

*7.7 Garddwest Palas Buckingham Ymateb erbyn 13 Chwefror*

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Enw'r Cadeirydd i gael ei gyflwyno. | Cytunwyd |

*7.8 Cais y Clerc am wyliau*

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Caniatau'r cais. | Cytunwyd |

**8. Pwyllgorau**
*Y Pecyn Cymorth Cyllid a Llywodraethiant ar gyfer Cynghorau Trefn a Chymuned*
13-02-23 drwy gyfrwng Zoom
Aelodau'r Pwyllgor Cyngr J Culley, A Edwards, R Davies, C Wychwood.

**9. Priffyrdd a Hawliau Tramwy Cyhoeddus**
*9.1 Meysydd Gweithredu – Priffyrdd i gynnwys Croes-y-llan*

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Gan nad oedd CSC wedi ymateb i'r ddogfen a gyflwynwyd am broblemau priffyrdd yn y Ward, byddai llythyr i gwyno'n cael ei anfon at Brif Weithredwr CSC. | Cytunwyd |

*9.1.1 Arhosfan bws yng Nghroes- y-llan*
Roedd un cwmni bysiau wedi ymateb yn dweud mai mater i CSC oedd unrhyw arhosfan bws ac nid oedd yn cynnig cefnogaeth. Er bod cefnogaeth leol i ddarparu arhosfan swyddogol, roedd pryderon am yr effaith ar blant ysgol a all orfod cerdded ar hyd y brif ffordd at yr arhosfan.

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Bod y Cyngr C Wychwood, G El Tawab a K Symmons yn crynhoi tystiolaeth leol am y cynnig i gael arhosfan bws a'i gyflwyno yn y cyfarfod nesaf. | Cytunwyd |

*9.1.2 Croesfan yn Llechryd*

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Bod Cyngr yn rhoi gwybodaeth i'r Clerc i gefnogi cais felly a chysylltu â'r ysgol i gael ei mewnbwn. | Cytunwyd |

*9.2 Llwybrau troed / mannau agored*
Nodwyd llwyddiant y prosiect Llwybrau Llesiant a'r gweithdai'n cael eu mwyhau gan lawer. Roedd y gwelliannau i'r llwybrau'n cael eu gwerthfawrogi'n fawr iawn gan y sawl sy'n eu defnyddio, ac roedd uy swyddog sydd wedi ei benodi gan y Cerddwyr yn abl iawn ac yn dda gyda phobl.

Gofynnwyd ble'r oedd yr hysbysfyrddau arfaethedig i fynd, a dywedwyd yn y cytundeb gwreiddiol eu bod i gael eu gosod yn adeilad y Mileniwm.

*9.3 Pont Llechryd / yr Afon – Nodi'r sefyllfa bresennol a chytuno ar unrhyw weithredu pellach.*
*Dywedodd y CS* A Edwards fod CSC wedi gwneud cais i CNC am ganiatâd priodol i gliriio'r sbwriel wrth y bont.

**10. Amwynderau**
*10.1 Bloc Toiledau – dogfennau tenantiaeth yn dal i gael eu cytuno*
Wedi mynd i holi.

*10.2 Man/Cae Chwarae – pob penderfyniad yn amodol ar ei gymeradwyo gan* Gymdeithas Cae Chwarae Llechryd.

*10.2.1 Gwaith heb ei wneud gan gynnwys gwaith trwsio o archwiliad ROSPA*

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Creu rhestr o'r gwaith trwsio angenrheidiol yn y cae a'r man chwarae a chael dyfynbrisiau am y gwaith. Roedd y Clerc wedi nodi 2 gwmni sy'n trwsio caeau chwarae. Nodwyd bod y byrddau rhwng y siglenni yn addas ar gyfer rhyw fath o addurno a byddid yn ymchwilio i hyn . | Cytunwyd |

*10.2.2 Cyflwr llwybr y ffin*
Yn parhau.

*10.2.3 Baw Cŵn*
Nodwyd cefnogaeth y warden cŵn gyda diolch.

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Ni fyddai cynllun gwylio cŵn yn cael ei sefydlu oni fyddai'n cael ei gefnogi gan CSC. Byddai mentrau eraill yn cael eu hystyried. | Cytunwyd |

10.2.4 *Adnewyddu'r ffrâm ddringo – bydd yn dal yn eiddo i'r CC*
*Problemau Sovereign gyda'r gosod*
Dywedodd y Clerc fod yr ymateb diweddaraf yn anfoddhaol a byddai'n ateb yn unol â hynny. Gofynnwyd a allai'r Safonau Masnachu helpu.

*10.3 Eglwys y Groes Sanctaidd, Llechryd*
Yr holl wybodaeth gyda'r pensaer.

*10.4 Adeilad y Mileniwm*
Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.

*10.5 Mainc goffa i drigolion*
Wedi ei harchebu.

*10.6 Darparu rhandiroedd*
Yn parhau.

*10.7 Cysgodfannau bws*
Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.

*10.8 Diffibrileiddwyr*
Neuadd y Cwrwgl
Llangoedmor
Cytuno ar 'ffrindiau' wedi eu henwi.

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Cytunodd y Cyng G Et Tawab i archwilio'r diffibrileiddiwr a byddai'r Clerc yn gwneud y gwaith gweinyddu ar gyfer cofrestru a diweddaru.<br>Cyng A Edwards i siarad â'r hyfforddwr i drefnu dyddiadau hyfforddiant ym mis Mawrth gyda dewisiadau cychwynnol ar 15, 22 a 29 Mawrth 2023. | Cytunwyd |

*10.9 Hysbysfyrddau*
Drws newydd wedi ei archebu.

*10.10 Biniau newydd (postyn, clawr, man chwarae)*
Yn parhau.

*10.11 Llyfrgell gymunedol – Cyng A Edwards*
Nodwyd bod Neuadd y Cwrwgl yn garedig wedi cytuno i lyfrau fod ar gael yn y neuadd flaen. Er nad yw'n ddelfrydol gan na fyddai ar gael dim ond pan fyddai'r Neuadd ar agor, roedd yn ddechrau i'r prosiect a nodwyd hyn gyda diolch.

**11. Digwyddiadau**
*11.1 Glanhau Afon Teifi*
Yn parhau.

*11.2 Codi sbwriel*
9.30am, 19 Chwefror 2023, cyfarfod yn Neuadd y Cwrwgl. Asesiad risg wedi ei sicrhau.

*11.3 Cinio'r Coroni, dydd Sul 7 Mai*

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Trefnu cyfarfod i bawb sydd â diddordeb yn Neuadd y Cwrwgl 20 Chwefror 2023 am 7pm. Cyngr i gysylltu ag amrywiol sefydliadau yn y pentref. | Cytunwyd |

**12. Adroddiadau cyfarfodydd**
Derbyn unrhyw adroddiadau
*12.1 Cyng R Davies – Llywodraethwyr Ysgol*
Dywedodd y Cyng R Davies ei bod wedi cael hyfforddiant fel un o Lywodraethwyr yr Ysgol.

*12.2 Cyng A Edwards – Neuadd y Cwrwgl*
Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.

*12.3 Cyngr A Edwards ac R Davies – Cyfarfod PACT*
Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.

*12.4 Grŵp Gwytnwch (i gynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am lifogydd)*
Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.

*12.5 Cyng J Culley Pwyllgor rhanbarthol Un Llais Cymru*
Dywedodd y Cyng J Culley fod y cyfarfod yn ddiddorol a soniodd am ariannu 'Mannau lleol ar gyfer natur' a hyfforddiant yn y dyfodol mewn defnyddio'r pecyn cymorth.

*12.6 Cyng J Culley Pwyllgor Moeseg a Safonau*
Dywedodd y Cyng J Culley ei bod yn cael hyfforddiant yn yr amrywiol feysydd a gynhwysir gan y Pwyllgor, gan gynnwys gollyngiad i Gyngr.

**13. Correspondence (i gynnwys dogfennau ymgynghori heb eu cynnwys dan unrhyw bennawd arall)**

**14. Materion Personol Cyfnewid Gwybodaeth gan Gynghorwyr**
Dywedwyd bod yr Eglwys wedi cael arian grant ar gyfer 'lle cynnes' a fyddai'n digwydd ar ddydd Gwener o 10 i 12, croeso i bawb.

Nodwyd y gallai'r dafarn leol gael ei rhoi ar y farchnad, a gofynnwyd a allai gael ei rhedeg fel prosiect cymunedol.

**15. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf – 06-03-23**

*Gan nad oedd dim busnes pellach i'w drafod, daeth y cyfarfod i ben am 8.54pm.*

*Chairman's signature:* *Dated: 06-03-23*